

CANLLAW DERBYN ADDYSG UWCH

Wedi'i ddiwygio Ebrill 2018

Cynnwys

Cyflwyniad 5

Beth yw'r prif newidiadau i gymwysterau yng Nghymru? 6

Bagloriaeth Cymru 7

Y Dystysgrif Her Sgiliau 8

Gwneud cynnig – Bagloriaeth Cymru Lefel Uwch 9

TGAU 10

TGAU a graddio 11

Cymwysterau galwedigaethol 12

Cyfeiriadau at fanylebau ac adnoddau eraill 13

Gweithio gydag addysg uwch 13

Cwestiynau cyffredin 14

TGAU mewn mathemateg 14

Bagloriaeth Cymru 15

Ynglŷn â Cymwysterau Cymru 16

ISBN 978-1-912608-01-0

Cyflwyniad

Mae cymwysterau yn y DU yn newid, gyda diwygiadau i gymwysterau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Amcan y cyhoeddiad hwn yw egluro'r newidiadau i gymwysterau yng Nghymru.

Cyflwynwyd y cymwysterau cyffredinol diwygiedig newydd yng Nghymru dros gyfnod o dair blynedd rhwng 2015 a 2017. Caiff y set olaf o'r cymwysterau TGAU a Safon Uwch newydd eu dyfarnu a rhoddir tystysgrifau ar eu cyfer yn 2019.

Beth yw'r prif newidiadau i gymwysterau yng Nghymru?

Safon Uwch

Cafodd cymwysterau UG a Safon Uwch yng Nghymru eu diwygio. Mae'r cymwysterau newydd wedi cael eu cyflwyno mewn tair ton rhwng 2015 a 2017. Maent gyfwerth â'r rhai yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, o ran maint, cludadwyedd a pha mor heriol ydynt.

Y prif bethau i'w nodi am y cymwysterau newydd yw'r canlynol:

- mae'r gofynion o ran cynnwys wedi'u diweddaru, ac yn debyg iawn o hyd i'r cymwysterau UG a Safon Uwch sy'n cael eu diwygio yn Lloegr;
- mae'r cymhwyster UG yn parhau i gyfrannu at y cymhwyster Safon Uwch cyffredinol (ond yn Lloegr, mae cymwysterau UG bellach ar wahân i gymwysterau Safon Uwch);
- mae asesiadau safon UG yn cyfrannu at 40% o'r Safon Uwch;
- lle y bo'n briodol o ran y pwnc, caiff sgiliau ymarferol eu hasesu ac maent yn cyfrif tuag at y radd derfynol;
- bydd pob cymhwyster Safon Uwch yn parhau i gael ei rannu'n unedau, ond caiff asesiadau eu cynnig yn ystod cyfres arholiadau'r haf yn unig. Ni chynigir cyfleoedd asesu ym mis Ionawr yng Nghymru mwyach (fel yng Ngogledd Iwerddon a Lloegr);
- dim ond unwaith y gall ymgeiswyr ailsefyll unedau cyn ardystio ar gyfer y cymhwyster, gyda'r canlyniad gorau yn cyfrannu at y canlyniad terfynol;
- gall ymgeiswyr ailsefyll y cymhwyster cyfan fwy nag unwaith.

Mewn pynciau lle nad oes cymhwyster Safon Uwch penodol i Gymru, mae dysgwyr a ariennir gan y wladwriaeth yn gallu dewis o blith y cymwysterau Safon Uwch a ddiwygiwyd yn Lloegr, ar yr amod bod y cymwysterau hynny wedi'u dynodi gan Cymwysterau Cymru fel cymwysterau sy'n gymwys i'w defnyddio ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru.

Gellir cael rhagor o wybodaeth am y diwygiadau yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn **www.cymwysteraucymru.org.**

NODYN AR GYFER ADDYSG UWCH

- Er bod rhai gwahaniaethau rhwng cymwysterau Safon Uwch yng Nghymru a Lloegr, dylai Darparwyr Addysg Uwch eu hystyried yn gyfnewidiadwy, at ddibenion gwneud cynigion.

- Mewn pynciau lle ceir nifer isel o ymgeiswyr, mae'n bosibl y bydd rhai dysgwyr yng Nghymru yn astudio ar gyfer cymwysterau Safon Uwch a ddatblygwyd ar gyfer Lloegr.

Bagloriaeth Cymru

Cafodd Bagloriaeth ddiwygiedig Cymru ei chyflwyno ym mis Medi 2015. Mae'n wahanol iawn i'r fersiwn a gynigiwyd yn flaenorol.

O 2017 ymlaen, bydd prifysgolion yn gweld cynnydd sylweddol yn nifer yr ymgeiswyr a fydd yn meddu ar Bagloriaeth Cymru.

Wrth wraidd Bagloriaeth Cymru mae'r Dystysgrif Her Sgiliau, sef cymhwyster newydd ac arloesol sy'n seilieidg ar sgiliau. Mae'r Dystysgrif Her Sgiliau yn asesu sgiliau gan gynnwys llythrennedd, rhifedd, llythrennedd digidol, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, cynllunio a threfnu, creadigrwydd ac arloesedd ac effeithiolrwydd personol. Mae'r Dystysgrif Her Sgiliau o'r un maint â chymhwyster Safon Uwch (360 o oriau dysgu dan arweiniad) ac a all gyflawni graddau A*-E.

Ar y cyd â'r Dystysgrif Her Sgiliau, mae Bagloriaeth Cymru hefyd yn cynnwys:

i) o leiaf ddau gymhwyster lefel 3 (e.e. Safon Uwch);
ii) TGAU Cymraeg/Saesneg Iaith a TGAU Rhifedd – Mathemateg/Mathemateg.

Disgwylir i'r rhan fwyaf o ddysgwyr sy'n bwriadu mynd ymlaen i AU astudio ar gyfer dau gymhwyster Safon Uwch neu fwy neu gymwysterau cyfatebol ynghyd â'r Dystysgrif Her Sgiliau.

NODYN AR GYFER ADDYSG UWCH

- Bydd y rhan fwyaf o ymgeiswyr Addysg Uwch o Gymru yn cynnig Bagloriaeth Cymru Lefel Uwch ar Lefel 3, sy'n cynnwys y Dystysgrif Her Sgiliau.
- Mae'r Dystysgrif Her Sgiliau o'r un faint â chymhwyster Safon Uwch, ac mae ganddi'r un strwythur raddio.
- Mae'n denu'r un faint o bwyntiau tariff â chymhwyster Safon Uwch ar gyfer pob gradd.

MANYLION Y FAGLORIAETH CYMRU UWCH NEWYDD



Pwysoliadau elfennau Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru Uwch



ALLWEDD

- Prosiect Unigol - 50%
- Her Menter a Chyflogadwyedd - 20%
- Her Dinasyddiaeth Fyd-eang - 15%
- Her Gymunedol - 15%

Y Dystysgrif Her Sgiliau

Elfennau'r Dystysgrif Her Sgiliau

		Heriau		
	Prosiect Unigol (50%)	***Menter a Chyflogadwyedd (20%)***	***Dinasyddiaeth Fyd-eang (15%)***	***Cymunedol (15%)***
Pwrpas	Datblygu sgiliau ymchwil dysgwyr	Meithrin sgiliau a phriodoleddau mentrus a gwella cyflogadwyedd	Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o faterion y byd	Nodi cyfleoedd yn y gymuned a chymryd rhan ynddynt
Pwyslais	Dyheadau addysgol neu yrfaol ar gyfer y dyfodol	Datblygu'r sgiliau a'r priodoleddau sy'n ofynnol ar gyfer gwaith ac addysg uwch	Deall materion byd-eang ac ymateb yn briodol iddynt	Annog y dysgwyr i nodi, datblygu a chymryd rhan mewn cyfleoedd sydd o fudd i gymuned
Y sgiliau a arddangosir	• sgiliau ymchwil a gwybodaeth • lefel uchel o astudio annibynnol	• rhifedd • llythrennedd digidol • creadigrwydd ac arloesi • effeithiolrwydd personol	• llythrennedd • meddwl yn feirniadol • datrys problemau • creadigrwydd ac arloesi	• cynllunio a threfnu • effeithiolrwydd personol
Asesu	Adroddiad ysgrifenedig estynedig neu arteffact/ cynnyrch a ategir gan dystiolaeth ysgrifenedig	Briff her	Briff her	Briff her

Gwneud cynnig – Bagloriaeth Cymru Lefel Uwch

Gellir llunio cynigion yn seiliedig ar y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch (graddau A* i E), y dyfernir yr un faint o bwyntiau tariff iddi â chymhwyster Safon Uwch (i gael rhagor o wybodaeth, ewch i www.ucas.com). Er enghraifft, gallai cynnig nodweddiadol gynnwys gradd B yn y Dystysgrif Her Sgiliau Uwch, gradd B mewn Safon Uwch Ffrangeg a gradd C mewn Safon Uwch Hanes.

Gallai cynigion nodweddiadol fod fel a ganlyn:

Cwrs y gwneir cais amdano	Cymwysterau a astudir	Cynnig
Rheoli Chwaraeon	Safon Uwch Llenyddiaeth Saesneg Safon Uwch Hanes Safon Uwch Addysg Gorfforol Bagloriaeth Cymru Lefel Uwch	Graddau ABB o 3 chymhwyster Safon Uwch neu Graddau AB o 2 gymhwyster Safon Uwch + gradd A yn Nhystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru Lefel Uwch
Rheoli Rhyngwladol	Safon Uwch Astudiaethau Busnes Safon Uwch Economeg Safon Uwch Mathemateg Bagloriaeth Cymru Lefel Uwch	Graddau AAB o 3 chymhwyster Safon Uwch neu Graddau AA o 2 gymhwyster Safon Uwch + gradd B yn Nhystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru Lefel Uwch neu Graddau AB o 2 gymhwyster Safon Uwch + gradd A yn Nhystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru Lefel Uwch
Cysylltiadau Rhyngwladol a Gwleidyddiaeth	Safon Uwch Bioleg Safon Uwch Hanes Safon Uwch Addysg Gorfforol Bagloriaeth Cymru Lefel Uwch	Graddau AAB o 3 chymhwyster Safon Uwch neu graddau ABBB o unrhyw gyfuniad o 3 chymhwyster Safon Uwch + Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru Lefel Uwch ond rhaid iddo gynnwys Safon Uwch Bioleg a Hanes

TGAU

Mae cymwysterau TGAU wedi cael eu diwygio yng Nghymru. Mae prif nodweddion y cymwysterau TGAU diwygiedig yng Nghymru fel a ganlyn:

- Maent yn parhau i dderbyn gradd A* i G.
- Mae cymwysterau TGAU diwygiedig yn cynnwys mwy o waith asesu sy'n seiliedig ar arholiadau na'u rhagflaenwyr; fodd bynnag, maent yn cynnwys asesiadau diarholiad lle y bo'n briodol er mwyn asesu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau sy'n rhan annatod o'r pwnc.
- Mae rhai yn llinol, mae eraill yn fodiwlaidd.
- Mae dau gymhwyster mathemateg: TGAU Mathemateg a TGAU Mathemateg – Rhifedd. Mae TGAU Mathemateg-Rhifedd yn asesu'r fathemateg y bydd ei hangen ar ddysgwyr yn eu bywydau bob dydd, ym myd gwaith ac, mewn meysydd cyffredinol eraill o'r cwricwlwm. Mae TGAU Mathemateg yn ymestyn i agweddau ar fathemateg megis algebra, geometreg a thebygoleg, sydd eu hangen i fynd ymlaen i ymgymryd ag astudiaethau gwyddonol, technegol neu fathemategol pellach. I gael rhagor o wybodaeth, gweler y Cwestiynau Cyffredin ar dudalen 14.

Mewn rhai pynciau lle ceir nifer isel o ymgeiswyr, caiff cymwysterau TGAU eu diwygio i Loegr, ond nid i Gymru. Mewn pynciau lle nad oes cymhwyster TGAU penodol i Gymru, mae dysgwyr a ariennir gan y wladwriaeth yn gallu dewis o blith y cymwysterau TGAU a ddiwygiwyd i Loegr. Cynlluniwyd y cymwysterau hyn i fodloni gofynion a bennwyd gan Ofqual, sef y rheoleiddiwr cymwysterau yn Lloegr, a chânt eu graddio ar raddfa o 9 i 1, nid o A* i G.

NODYN AR GYFER ADDYSG UWCH

- Mae'n rhaid i brifysgolion a cholegau ystyried y trefniadau graddio gwahanol a weithredir ledled Cymru, Lloegr a Gogoledd Iwerddon, pan fyddant yn cyfathrebu eu gofynion mynediad. Mae cymwysterau TGAU diwygiedig yn cael eu cyflwyno'n raddol mewn pynciau gwahanol dros sawl blwyddyn. Yn ystod y cyfnod pontio hwn, bydd economi gymysg o A* i G a 9 i 1 yn Lloegr. Yng Nghymru, bydd dysgwyr sy'n astudio rhai pynciau le ceir nifer isel o ymgeiswyr yn cymryd cymwysterau TGAU diwygiedig sydd wedi'u datblygu i Loegr, sy'n golygu y byddant yn cael cymysgedd o raddau yn nhrefn yr wyddor a graddau rhifiadol.



TGAU a graddio

Mae'r cymwysterau TGAU diwygiedig yng Nghymru yn cadw'r drefn raddio bresennol, A* i G. Fodd bynnag, mae cymwysterau TGAU yn Lloegr a Gogledd Iwerddon wedi mabwysiadu graddau gwahanol. Felly, bydd trefniadau graddio gwahanol i gymwysterau TGAU ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Ni ellir cymharu'r raddfa bresennol yn nhrefn y wyddor â'r raddfa ddiwygiedig rifiadol yn Lloegr yn fanwl, gan nad oes unrhyw gyfatebiaeth uniongyrchol rhwng y ddwy raddfa graddio. Er enghraifft, nid yw'n bosibl datgan bod gradd B yn cyfateb yn union i radd 5 neu radd 6. Gellir llunio rhai cymariaethau bras, fel yr eglurir isod.

Mae Ofqual wedi datgan yn glir ei fod yn disgwyl i'r cymwysterau TGAU newydd yn Lloegr fod yn hygyrch i'r un amrywiaeth o allu ymgeiswyr â'r cymwysterau etifeddol. Ar y cyfan, mae'n disgwyl y bydd yr un gyfran o ddysgwyr a gyflawnodd radd C ac uwch mewn unrhyw bwnc yn yr hen gymwysterau yn cyflawni gradd 4 ac uwch yn y cymwysterau newydd. Bydd y gyfran o ymgeiswyr fydd yn cyflawni graddau 9 i 7 yn cyfateb yn fras i'r rheini a fyddai wedi cyflawni graddau A* i A. Dyfernir llai o raddau 9 na nifer y graddau A* a ddyfernir ar hyn o bryd.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i **www.ofqual.gov.uk**

Strwythurau graddio TGAU o 2017

Lloegr	Cymru
9	A*
8	A
7	
6	B
5	C
4	
3	D
2	E
	F
1	G
U	U

Cymwysterau galwedigaethol

Mae dysgwyr 14-19 oed yn astudio ar gyfer amrywiaeth eang o gymwysterau galwedigaethol gwerthfawr a heriol. Cynigir llawer o gymwysterau galwedigaethol ar sail tair gwlad (h.y. Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon).

Mae Cymwysterau Cymru yn mabwysiadu dull strategol hirdymor mewn perthynas ag adolygu a diwygio cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru drwy ein rhaglen o adolygiadau sector. Ym mis Gorffennaf 2016, cyflwynwyd adroddiad gennym ar ein hadolygiad cyntaf o gymwysterau yn y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol (gan gynnwys Gofal Plant). Ers hynny, rydym wedi comisiynu'r gwaith i ddatblygu cymwysterau newydd, ar lefelau 1 i 5, i'w haddysgu gyntaf o fis Medi 2019. Bydd y cymwysterau presennol yn parhau tan yr adeg honno.

Ym mis Chwefror 2018, gwnaethom adrodd ar ein hail adolygiad o gymwysterau, yn y sector Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig, ac rydym yn bwriadu cyhoeddi ein trydydd adolygiad, ar gymwysterau yn y sector TGCh, ar ddiwedd 2018. Fel rhan o bob adolygiad sector, rydym yn ymgysylltu'n helaeth â chyflogwyr, darparwyr dysgu a dysgwyr er mwyn asesu effeithiolrwydd y cymwysterau presennol a'r system gysylltiedig.

Yn y cyfamser, rydym yn parhau i dderbyn cymwysterau i'r system gymwysterau yng Nghymru os ceir tystiolaeth o gefnogaeth gan gyflogwyr, perthnasedd i ddysgwyr yng Nghymru, galw gan ddysgwyr a phriodoldeb o ran oed. Felly, mae'r rhan fwyaf o'r cymwysterau galwedigaethol yng Nghymru yr un fath â'r rhai a ddyfernir mewn mannau eraill yn y DU.

Cyfeiriadau at fanylebau ac adnoddau eraill

Ceir rhestr lawn o'r cymwysterau sy'n gymwys i'w defnyddio ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus ar gyfer pobl ifanc rhwng 14 a 19 oed yng Nghymru ar ein cronfa ddata, **www.qiw.cymru**

Caiff cymwysterau Safon Uwch a TGAU sydd wedi'u diwygio'n benodol i Gymru eu darparu gan CBAC yn unig. Gellir cael gafael ar fanylebau a rhagor o wybodaeth am gymwysterau TGAU a Safon Uwch yng Nghymru ar am Fagloriaeth Cymru yn: **www.cbac.co.uk**

Gellir gweld rhagor o wybodaeth am y newidiadau i gymwysterau Safon Uwch a TGAU yng Nghymru ar ein gwefan, gan gynnwys datganiad gan y rheoleiddwyr cymwysterau ar y prif gyffelybiaethau a gwahaniaethau rhwng Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon.

Mae gan UCAS adnoddau helaeth a defnyddiol iawn ar ddiwygio cymwysterau ledled y DU; am ragor o wybodaeth, ewch i **www.ucas.com**

Gweithio gydag addysg uwch

Mae Cymwysterau Cymru yn cynnwys Darparwyr Addysg Uwch wrth gomisiynu a dylunio cymwysterau ac yn ymgynghori'n helaeth ag Addysg Uwch, yn ogystal â rhanddeiliaid eraill. O gofio bod y cymwysterau a reoleiddir gennym yn cael eu defnyddio'n helaeth gan Ddarparwyr Addysg Uwch, rydym yn awyddus i gynnal trafodaeth weithredol â nhw lle bynnag y bo'n bosibl.

Cwestiynau cyffredin

Mae'r Cwestiynau Cyffredin canlynol wedi'u seilio ar ymholiadau gan Ddarparwyr Addysg Uwch a byddant yn ddefnyddiol i ymarferwyr derbyniadau yn benodol:

TGAU mewn mathemateg

C: Ai dyfarniad dwbl yw TGAU Mathemateg a TGAU Mathemateg-Rhifedd?
A: Mae TGAU Mathemateg a TGAU Mathemateg – Rhifedd yn ddau gymhwyster ar wahân. Maent yn sylweddol wahanol i'r cymwysterau TGAU Mathemateg blaenorol. Bydd y mwyafrif helaeth o ddysgwyr yng Nghymru'n astudio'r ddau.

C: Ydy TGAU Mathemateg a TGAU Mathemateg-Rhifedd yn ddau hanner TGAU?
A: Mae TGAU Mathemateg a TGAU Mathemateg – Rhifedd yn gymwysterau TGAU llawn, o'r un faint ac yr un mor heriol.

C: A ddylai rhywun sy'n llwyddo mewn TGAU Mathemateg basio TGAU Mathemateg-Rhifedd yn hawdd?
A: Nid o reidrwydd; mae'r ffocws asesu a'r cyd-destunau yn wahanol ac efallai y bydd ymgeiswyr yn gwneud yn well mewn TGAU Mathemateg nag mewn TGAU Mathemateg-Rhifedd neu i'r gwrthwyneb.

C: A fydd disgwyl i ddysgwyr o Gymru astudio TGAU Mathemateg a TGAU Mathemateg-Rhifedd?
A: Disgwylir y bydd y mwyafrif o ddysgwyr yn astudio'r ddau bwnc TGAU, yn enwedig y rhai sy'n debygol o fynd ymlaen i Addysg Uwch.

C: Pa un o'r cymwysterau TGAU Mathemateg a TGAU Mathemateg-Rhifedd newydd y dylem ei bennu'n ofynnol ar gyfer mynediad i gyrsiau?
A: Mae hyn yn debygol o amrywio o gwrs i gwrs. Mae'r ddau gwrs TGAU newydd yr un mor heriol. Mae TGAU Mathemateg-Rhifedd yn asesu'r fathemateg y bydd ei hangen ar ddysgwyr yn eu bywydau bob dydd, ym myd gwaith ac, mewn meysydd cyffredinol eraill o'r cwricwlwm. Mae TGAU Mathemateg, ar y llaw arall, yn ymestyn i agweddau ar fathemateg sydd eu hangen i fynd ymlaen i ymgymryd ag astudiaethau gwyddonol, technegol neu fathemategol pellach. Mae'r gwahaniaethau'n golygu na fydd pob ymgeisydd yn cael yr un radd yn y ddau gymhwyster newydd.

C: Mae angen gradd llwyddo arnom mewn TGAU Mathemateg i fodloni ein gofyniad cyffredinol ar gyfer unrhyw gynllun gradd fel tystiolaeth o gyrhaeddiad academaidd cyffredinol ac ehangder; pa TGAU Mathemateg y dylem ofyn amdani?
A: Ein cyngor yw bod naill ai TGAU Mathemateg neu TGAU Mathemateg-Rhifedd yr un mor dderbyniol ar gyfer y diben cyffredinol hwn.

C: Rydym yn cynnal cyrsiau cystadleuol iawn ac yn chwilio am nifer benodol o raddau uchel iawn e.e. A* mewn TGAU i sgrinio ymgeiswyr cyn eu hystyried ymhellach. Pa TGAU Mathemateg ddylwn i ei chyfrif?
A: Mae TGAU Mathemateg a TGAU Mathemateg-Rhifedd yn ddwy TGAU ar wahân sydd â'u manylebau a'u ffocws asesu eu hunain. Maent yn gyfwerth o ran pa mor heriol ydynt, felly dylai naill ai TGAU Mathemateg neu TGAU Mathemateg-Rhifedd gyfrif.

C: Beth ddylai fod yn ofynnol i ymgeiswyr ar gyfer Gwyddoniaeth, Peirianneg a Mathemateg (pynciau STEM)?

A: Ar hyn o bryd, mae llawer o gyrsiau ar gyfer pynciau STEM yn gofyn bod gan ymgeiswyr radd C neu uwch mewn TGAU Mathemateg yn ogystal â'r Safon Uwch ofynnol. Oherwydd ei ffocws penodol ar y mathemateg sydd ei hangen i fynd ymlaen i ymgymryd ag astudiaethau gwyddonol, technegol neu fathemategol pellach, rydym yn awgrymu bod cwblhau'r cymhwyster TGAU Mathemateg yn foddhaol ar ei ben ei hun yn ddigon, ynghyd â Safon Uwch priodol, neu gymwysterau eraill, i fodloni gofynion y cwrs.

C: Rydym ar hyn o bryd yn gofyn am TGAU Mathemateg ar gyfer mynd ymlaen i'r Gwyddorau Cymdeithasol e.e. Cyfrifyddu, Economeg, Seicoleg. Pa TGAU Mathemateg ddylwn i ofyn amdani i ymgeiswyr o Gymru ar gyfer y pynciau hyn?

A: Ein cyngor ni yw y byddai gwybodaeth ddigonol o dechnegau mathemategol perthnasol a sicrwydd o sgiliau mathemategol yn y naill TGAU mathemateg newydd neu'r llall i fodloni gofynion dilyniant y pynciau hyn. Byddem yn eich annog i edrych ar y manylebau ar gyfer y ddwy TGAU er mwyn eich helpu i ddod i benderfyniad, ond rydym yn argymell eich bod yn llunio cynigion i gynnwys naill ai TGAU Mathemateg neu TGAU Mathemateg-Rhifedd.

C: Pa ofynion TGAU Mathemateg sy'n angenrheidiol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru?

A: Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu y bydd y gofyniad am radd B mewn Mathemateg i gael mynediad at Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon yng Nghymru yn parhau i fod yn gymwys, a bodlonir hyn drwy ennill gradd B naill ai mewn TGAU Mathemateg neu TGAU Mathemateg-Rhifedd.

C: Pa TGAU fydd ei hangen ar ymgeiswyr er mwyn bodloni gofyniad rhifedd y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth yng Nghymru ar gyfer mynediad ar ei gynlluniau gradd a reoleiddir?

A: Byddai gradd A* i C naill ai mewn TGAU Mathemateg neu TGAU Mathemateg-Rhifedd yn bodloni'r gofynion o ran tystiolaeth ar gyfer rhifedd.

Am fanylion pellach ynghylch cynnwys a strwythur y cymwysterau TGAU newydd, gallwch weld manylebau'r ddau gymhwyster TAGU ar wefan CBAC yn **www.cbac.co.uk.**

Bagloriaeth Cymru

C: A yw Bagloriaeth Cymru yr un fath â Bagloriaeth Lloegr neu'r Fagloriaeth Ryngwladol?

A: Mae Bagloriaeth Cymru yn gwbl wahanol i Fagloriaeth Lloegr, y Fagloriaeth Ryngwladol, Bagloriaeth Ffrainc neu unrhyw Fagloriaeth arall. Peidiwch â'u grwpio gyda'i gilydd fel rhai tebyg o ran eich gofynion mynediad.

C: A yw Bagloriaeth Cymru yn gymhwyster amgen i Safon Uwch yng Nghymru:?

A: Disgwylir i bob dysgwr yng Nghymru astudio Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru ochr yn ochr â'u cymwysterau Safon UWch neu gymwysterau cyfwerth.

C: Ai yn Gymraeg yn unig mae Bagloriaeth Cymru ar gael?

A: Gellir astudio Cymhwyster Bagloriaeth Cymru yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Ynglŷn â Cymwysterau Cymru

Pwy ydym ni?

Cymwysterau Cymru yw'r sefydliad annibynnol sy'n rheoleiddio cymwysterau nad ydynt yn raddau yng Nghymru. Fe'm sefydlwyd drwy Ddeddf Cymwysterau Cymru 2015, ac rydym yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru ond rydym yn atebol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy ein hadroddiad blynyddol. Mae hyn yn golygu ein bod yn annibynnol ar y llywodraeth.

Beth rydym yn ei wneud, a sut?

Rydym yn gweithio ar ran dysgwyr, er mwyn gwneud yn siŵr bod cymwysterau, a'r system cymwysterau yng Nghymru, yn addas ar gyfer anghenion dysgwyr yng Nghymru, ac rydym yn ennyn hyder y cyhoedd yn y rhain.

Gwnawn hyn drwy wneud y canlynol:

- cydnabod cyrff dyfarnu i gynnig cymwysterau rheoleiddiedig;
- nodi cymwysterau sy'n gymwys i gael eu hariannu'n gyhoeddus;
- monitro cyrff dyfarnu er mwyn sicrhau eu bod yn gweithredu mewn modd teg a chyson, a'u bod yn bodloni ein gofynion;
- adolygu cymwysterau sydd eisoes yn y system;
- llunio gofynion cymwysterau newydd a chomisiynu cyrff dyfarnu er mwyn helpu i ddatblygu cymwysterau newydd ar gyfer Cymru;
- cynnal ymchwil i lywio ein dull rheoleiddio.

Mwy o wybodaeth

I gael rhagor o fanylion am ein gwaith, ewch i **www.cymwysteraucymru.org**

Adeilad Q2
Lôn Pencarn
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 01633 373 222

© 2018 Cymwysterau Cymru